
**Rhif**: **6**

**Rhif y Cais / Application Number : C15/0485/46/LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



| | |
| --- | --- |
| Cais Rhif: | C15/0485/46/LL |
| Dyddiad Cofrestru: | 19/05/2015 |
| Math y Cais: | Llawn - Cynllunio |
| Cymuned: | Tudweiliog |
| Ward: | Tudweiliog |
| Bwriad: | GOSOD 5 POD 'GLAMPIO' AC ADEILADU BLOC CYFLEUSTERAU CEGIN / TOILEDAU YNGHYD Â SAFLE PARCIO A NEWID DEFNYDD LLYN O AMAETHYDDOL I DWRISTIAWETH |
| Lleoliad: | TIR GER TY BWLCYN, DINAS, PWLLHELI, GWYNEDD, LL538UD |

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** Caniatáu gydag amodau

**1. Disgrifiad:**

1.1 Mae'r cais yn un ar gyfer gosod pump pod 'glampio' a thoiled compost ynghyd ag adeiladu bloc cyfleusterau cegin/toiledau a darpariaeth parcio ar dir yn Nhŷ Bwlcyn, Dinas. Gofynnir hefyd am newid defnydd llyn amaethyddol presennol i ddefnydd twristiaeth, er mwyn i ymwelwyr i'r safle ei ddefnyddio ar gyfer pysgota a hamdden. Byddai'r podiau o wneuthuriad pren ac wedi eu gosod ar gae i'r gogledd ddwyrain o'r llyn, ac wedi eu lleoli o amgylch ffiniau coediog y cae. Byddai'r adeilad a'r safle parcio wedi eu lleoli ar waelod llethr yn agos i fythynnod gwyliau eiddo Tŷ Bwlcyn a bwriedir gwella llwybr presennol i gysylltu'r parcio gyda'r cae ble lleolir y podiau. Bwriedir cysylltu i'r tanc septig presennol sydd ar y safle.

1.2 Mae'r safle wedi ei leoli yng nghefn gwlad agored ac o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Bwriedir ail sefydlu mynedfa ddiddefnydd bresennol i'r ffordd ddi-ddosbarth fel mynediad i'r datblygiad, gan ei lledu a gwella'r gweledEdd. Bydd y fynedfa wedi ei lleoli oddeutu 65m oddi wrth y gyffordd a'r ffordd sirol dosbarth 3 gyfagos. Mae'r safleoedd coediog i'r dwyrain a'r gorllewin o'r cae podiau wedi eu hadnabod fel Safle Bywyd Gwyllt Lleol. Mae eiddo Tŷ Bwlcyn yn adeilad rhestredig gradd II.

1.3 Cyflwynir y cais i Bwyllgor gan y derbyniwyd mwy na 3 gwrthwynebiad i'r bwriad.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

**2.2 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI B3 DATBLYGIADAU SY'N EFFEITHIO AR OSODIAD ADEILAD RHESTREDIG Sicrhau nad yw cynigion yn cael effaith ar osodiad Adeiladau Rhestredig oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i warchod cymeriad arbennig yr Adeilad Rhestredig a'r amgylchedd leol.

POLISI B8 ARDALOEDD O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) LLŶN A MÔN Gwarchod, cynnal a gwella cymeriad yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig y safle yn unol â gofynion statudol Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

POLISI B17 GWARCHOD SAFLEOEDD O ARWYDDOCAD RHANBARTHOL NEU LEOL Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod, hyrwyddo a rheoli nodweddion cydnabyddedig y safleoedd.

POLISI B22 DYLUNIAD ADEILADAU Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd leol.

POLISI B23 MWYNDERAU Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

POLISI B25 DEUNYDDIAU ADEILADU Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

POLISI B27 CYNLLUNIAU TIRLUNIO Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle ac sy'n ystyried cyfres o ffactorau sy'n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI CH33 DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

POLISI D13 ATYNIADAU A CHYFLEUSTERAU Caniatau cynigion i ddatblygu atyniadau a chyfleusterau newydd ar gyfer ymwelwyr, neu i wella safon cyfleusterau presennol os ydynt o fewn ffin ddatblygu neu ar safleoedd o fathau penodol eraill os nad oes cyfleoedd addas o fewn ffin ddatblygu. Bydd yn ofynnol i bob cynnig gydymffurfio â'r meini prawf sy'n ymwneud gyda datblygu marchnadoedd 'niche'; neu, cefnogi datblygu thema gydnabyddedig Strategaeth Dwristiaeth Gwynedd a, dyluniad, gosodiad a gwedd y datblygiad arfaethedig.

POLISI D19 SAFLEOEDD NEWYDD AR GYFER CARAFANAU TEITHIOL, GWERSYLLA AC UNEDAU TEITHIOL Caniatáu cynigion i ddatblygu safleoedd carafanau teithiol, gwersylla, neu, unedau teithiol newydd os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol yn ymwneud gyda dyluniad, gosodiad, gwedd a lleoliad y datblygiad, materion traffig, cyfyngu defnydd yr unedau ac effaith cronnol ar yr ardal leol.

Canllaw Cynllunio Atodol : Llety Gwyliau (Gorffennaf 2011)

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**
Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7, Gorffennaf 2014)
Nodyn Cyngor Technegol 13 – Twristiaeth
Nodyn Cyngor Technegol 18 – Trafnidiaeth

## 3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

3.1 C10D/0270/46/YA Creu llyn ar gyfer draenio'r tir :Caniatáu 19 Awst 2010

C07D/0015/46/CR Trosi adeilad fferm i 2 uned gwyliau (Cais Adeilad Rhestredig): Caniatáu 9 Hydref 2007

C06D/0683/46/LL Trosi adeilad fferm i 2 uned gwyliau: Caniatáu 12 Mehefin 2007

Y14/003348: Ymholiad cyn cais wedi ei gyflwyno yn gofyn am gyngor ynglŷn â datblygu safle podiau gwyliau ar y safle. Cynghori y byddai angen i'r datblygiad fod yn anymwthiol a gweddu i'r safle gwledig, egwyddor yn dderbyniol.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Cefnogi. |
| Uned Drafnidiaeth: | Dim gwrthwynebiad i'r bwriad. Byddai'r safle glampio ddim ond 70 medr lawr y ffordd ddi-ddosbarth ac ystyrir fod modd gweld cerbydau o un pen i'r llall, gan ganiatáu i yrwyr ddisgwyl yn y fynedfa neu gyffordd os ddaw cerbyd arall i'w cwrdd. Yn ogystal mae'r llif traffig a ddisgwylir o ddatblygiad o bump safle campio yn debygol o fod yn eithaf isel ac yn annhebyg o gael effaith andwyol ar y rhwydwaith ffyrdd lleol. Argymhellir amodau safonol parthed adeiladu'r fynedfa ac amod neu nodyn sy'n gofyn i'r ymgeisydd i wella'r gweledEdd o'r gyffordd rhwng y ffodd dosbarth 3 a ffordd ddi-ddosbarth gan fod y tir ym mherchnogaeth yr ymgeisydd. Ni ddisgwylir iddynt ddarparu llain gwelededd o faint safonol, fodd bynnag credir y gallent wneud gwelliant trwy dorri'r tyfiant yn ôl yn gyffredinol. |
| Uned Iechyd a Gwarchod y Cyhoedd: | Mae'r ymgeisydd wedi ymateb i'r pwyntiau 1-7 a nodwyd ym memo'r Uned Iechyd a Diogelwch dyddiedig 1 Mehefin 2015, sydd nawr yn bodloni Safonau Model 1983 a rhai materion Deddf Iechyd a Diogelwch 1974. Nid oes gwrthwynebiad i'r cais hwn. |
| Uned Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol: | Nifer o gyrsiau dwr yn llifo gerllaw'r safle. Awgrymu amodau bod yr ymgeisydd yn diogelu'r cyrsiau dwr. |
| Uned AHNE: | Mae'r safle dan sylw yng nghefn gwlad ar gyrion Garn Fadrun, Dinas ac oddi mewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Byddai'r datblygiad yn cynnwys 5 Pod gwyliau, adeilad allanol a man parcio. Mae pryder am effaith cyfun y datblygiadau unigol a chreu menter dwristiaeth o'r newydd mewn safle wledig a naturiol yn yr AHNE. |
| Gwasanaeth Tan: | Dim sylwadau mewn perthynas â'r cais. |
| Dŵr Cymru: | Heb eu derbyn. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a hysbyswyd y trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben. Derbyniwyd sawl gohebiaeth ar y cais. |

Derbyniwyd cefnogaeth yn datgan bod hwn yn gynllun ardderchog, ond yn datgan peth pryder am y fynedfa.

Derbyniwyd gwrthwynebiadau ar sail materion cynllunio yn ymwneud â:

- Mynedfa - ffordd gul ddi-ddosbarth, serth, dim arwydd o fynedfa bresennol, gwelededd gwael wrth y gyffordd, colli clawdd a phlanhigion, cynyddu traffig, cerddwyr a beicwyr yn debygol o gynyddu damweiniau.

- Mwynderau - Colli preifatrwydd, sŵn, effeithio tawelwch y safle.
- Effaith ar yr AHNE- podiau a'r adeiladau yn niweidiol
- Problemau draenio ar y ffordd
- Cwestiynu bwriad y llyn yn y lle cyntaf

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad

5.1 Mae polisi D19 yn caniatáu cynigion i ddatblygu safleoedd carafanau teithiol, gwersylla ac unedau teithiol newydd os cydymffurfir â'r cyfan o'r meini prawf a nodir. Yn eu mysg yw'r angen bod dyluniad, gosodiad a gwedd y datblygiad o safon uchel a'i fod wedi ei leoli mewn man anymwthiol, wedi ei guddio'n effeithiol gan nodweddion tirwedd bresennol a/neu ble gellir cymhathu unedau teithiol yn hawdd â'r dirwedd mewn modd nad yw'n achosi niwed arwyddocaol o ansawdd gweledol y dirwedd; bod y safle yn agos at rwydwaith priffyrdd ble gellir darparu mynediad digonol; y defnyddir y safle at ddibenion teithiol yn unig; ac na fydd y bwriad y tu hwnt i allu rhesymol y cyffiniau i gynnwys y datblygiad wrth ystyried unrhyw effaith gronnol safleoedd teithiol presennol.

5.2 Ystyrir ceisiadau am 'bodiau' o dan bolisïau carafanau teithiol, gan mai unedau symudol/gwersylla ydynt i bob pwrpas. Byddai'r 5 'pod' bychan wedi eu lleoli o amgylch ffiniau cae siâp triongl sy'n sefyll i'r gorllewin o'r llyn presennol, ac mae'r cae gyda ffiniau coediog aeddfed naturiol yn bresennol. Datgan y Datganiad Dylunio a Mynediad y byddai'r podiau o wneuthuriad pren gyda tho bwa ac yn mesur oddeutu 3.9m o hyd, 2.6m o led ac 2.4m o uchder, gyda'r to i fod unai o bren neu wellt. Byddant yn unedau o fath symudol, lle y gellir eu symud yn gymharol rhwydd o amgylch y cae. Credir bod y cae dan sylw yn addas i ddatblygiad o'r fath gan bod tir uwch i'r cefn a haen drwchus o lystyfiant ar y ffiniau, sy'n golygu y byddant yn guddiedig ac allan o olwg y cyhoedd a'r tai agosaf. Ni fydd y safle yn amharu ar y Safle Bywyd Gwyllt Lleol gyfochrog.

5.3 Byddai'r adeilad cyfleusterau wedi ei leoli oddeutu 230m i'r de orllewin o'r cae podiau, ger bythynnod gwyliau Tŷ Bwlcyn a ger y fynedfa. Bwriedir adeiladu'r adeilad o flociau a'i orchuddio gyda gorffeniad pren a tho sinc fyddai'n sympathetig i'w gefndir gwledig. Dengys y byddai'r adeilad yn cynnwys cegin/ystafell fwyta, 2 gawod, 2 doiled cyfleuster anabl a storfa feic ac yn mesur oddeutu 80m². Gyfochrog a'r adeilad byddai darpariaeth parcio i 8 cerbyd, 2 ohonynt yn fannau anabl fyddai'n gymysgedd o wair a gro a bwriedir plannu rhes o goed cynhenid i'r cefn. Cysylltir y bloc cyfleusterau gyda'r cae podiau trwy lwybrau troed presennol sydd i'w gwella a nodir y bydd yr ymwelwyr yn cael eu cludo i'r podiau gyda beiciau cwad os bydd angen. Mae'r ymgeisydd hefyd yn gofyn am newid defnydd y llyn presennol o amaethyddol i dwristiaeth, fel bod ymwelwyr y podiau a'r bythynnod gwyliau yn cael ei ddefnyddio i bysgota a hamddena.

5.4 Credir bod dyluniad, gosodiad a gwedd y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol, yn yr ystyr ei fod mewn lleoliad anymwthiol mewn dyffryn coediog gwyrdd gyda nodweddion tirwedd bresennol yn helpu i sgrinio'r datblygiad. Er bod tirweddu ychwanegol yn cael ei gynnig i gefn y bloc cyfleusterau, fydd yn meddalu ei effaith, mae'r tirweddu presennol yn ddigonol i gydymffurfio a pholisi B27 CDUG. Ystyrir fod y podiau a'r adeilad cyfleusterau o ddyluniad a gorffeniad addas ac yn debygol o gymhathu ac ymdoddi i'r lleoliad gwledig, heb achosi niwed arwyddocaol i'r dirwedd nac i osodiad adeilad rhestredig Tŷ Bwlcyn, felly yn dderbyniol yng nghyd-destyn polisi B3 CDUG. Nodir bod y Swyddog AHNE wedi datgan pryder am effaith cyfunol y datblygiadau ac am greu menter dwristiaeth o'r newydd mewn safle wledig a naturiol yn yr AHNE. Tra nodir y pwyntiau, nid oes modd atal datblygu o fewn AHNE yn llwyr, ond ceisio sicrhau bod datblygiadau yn gwarchod a chynnal ei gymeriad. O

ystyried graddfa, lliw a lleoliad y podiau a'r adeilad cyfleusterau, mewn dyffryn anymwthiol, ni ystyrir bod y cynnig yn mynd i sefyll allan yn amlwg na chael effaith niweidiol arwyddocaol ar fwynderau gweledol yr AHNE. Ystyrir felly bod y bwriad yn cwrdd â gofynion polisi B8 ac maen prawf 1 polisi D19 CDUG.

5.5 Ni ragwelir cynnydd sylweddol mewn trafnidiaeth yn sgil y cais, o ystyried graddfa fechan y bwriad ac mae'n debygol y bydd y drafnidiaeth wedi ei gyfyngu i geir a beiciau, yn hytrach na cherbydau tynnu fel safleoedd carafanau teithiol arferol. Bydd y fynedfa sydd i'w ail sefydlu a'i gwella oddeutu 65m o'r gyffordd gyda ffordd sirol trydydd dosbarth, felly o safbwynt agosrwydd at y rhwydwaith ffyrdd ystyrir yn rhesymol. Gan mai ail sefydlu mynedfa bresennol yw'r nod i ffordd ddi-ddosbarth, nid oes angen caniatâd cynllunio a gellir ei gwella heb achosi niwed arwyddocaol i nodweddion y dirwedd. Ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol yn nhermau maen prawf 2 polisi D19.

5.6 Bwriedir lleoli'r podiau ar y cae dros y tymor gwyliau yn unig, gyda'r ymgeisydd yn nodi bwriad i'w symud un ai i gornel cuddiedig o'r cae neu i'r maes parcio dros y gaeaf, fyddai'n hwyluso i gynnal a chadw'r unedau. Gellir rheoli bod y podiau'n cael eu defnyddio at ddiben gwyliau yn unig ac y symudir i leoliad storio anymwthiol trwy amodau cynllunio perthnasol.

5.7 Mae'r ymgeisydd eisoes yn darparu llety gwyliau yn Nhŷ Bwlcyn ac yn yr adeiladau allanol sydd wedi cael hawl cynllunio/rhestredig yn 2007 i'w trosi'n fythynnod gwyliau. Nid oes unrhyw safleoedd carafanau yng nghyffiniau agos y cais nac yn yr un cyd-destyn gweledol, felly ni ystyrir y byddai'r datblygiad hwn yn mynd tu hwnt i allu rhesymol y cyffiniau i ymdopi a datblygiad yn nhermau effaith gronnol, ar sail amgylcheddol, mwynderol a ffyrdd ac yn bodloni maen prawf 4 polisi D19 CDUG. Ystyrir felly fod y bwriad o sefydlu safle i 5 pod, adeiladu adeilad cyfleusterau a gwaith cysylltiedig ar y raddfa hyn yn addas i'r lleoliad ac yn cydymffurfio a holl ofynion polisi D19 CDUG.

5.8 Ystyrir yr agwedd newid defnydd y llyn o amaethyddol i ddiben twristiaeth o dan bolisi D13 CDUG. Yn ôl yr ymgeisydd nid yw'n fwriad i greu menter fasnachol eang o'r llyn, ond yn hytrach fod yr ymwelwyr i'r safle podiau a'i unedau gwyliau yn gallu ei ddefnyddio i bysgota ac i hamddena. Crëwyd y llyn yn wreiddiol ar gyfer dibenion draenio tir gan mai tir corsiog ydoedd. Gan mai elfen israddol o'r bwriad yw hwn mewn gwirionedd, heb olygu niferoedd eang o ymwelwyr, nid oes pryder sylweddol o newid ei ddefnydd. Mae'r ymgeisydd yn manteisio ar gyfleuster presennol i gynnig elfen dwristiaeth 'niche' i'w gwsmeriaid a ystyrir yn dderbyniol o agwedd polisi D13 CDUG. Gellir hefyd amodi nad yw'r llyn yn agored i'r cyhoedd er mwyn sicrhau nad oes effaith annerbyniol ar fwynderau'r ardal na chynnydd annerbyniol mewn trafnidiaeth.

**Materion trafnidiaeth**

5.9 Derbyniwyd gohebiaeth ar y cais yn datgan pryder am y fynedfa ar gyfer y datblygiad, gan ei bod yn ffordd ddi-ddosbarth gul. Serch hynny, nodir mai ail sefydlu a lledu hen fynedfa ddiddefnydd yw'r bwriad yma, na fyddai angen caniatâd cynllunio. Mae'r fynedfa oddeutu 65m o'r gyffordd i ffordd sirol trydydd dosbarth. Mae'r Swyddog Priffyrdd yn fodlon gyda'r bwriad gan fod y pellter rhwng y ffordd drydydd dosbarth a'r fynedfa yn galluogi bod modd gweld cerbydau o un pen i'r llall. Datgan hefyd y byddai'r llif traffig a ddisgwylir o ddatblygiad o bum safle campio yn debygol o fod yn isel ac yn annhebyg o gael effaith andwyol ar y rhwydwaith ffyrdd. Serch hynny, mae'n gofyn bod gwelededd ar y gyffordd i'r ffordd sirol yn cael ei gwella trwy grafu a thorri'r tyfiant yn ôl a gellir cynnwys amod i'r perwyl hynny. Nodwn bryderon y gwrthwynebwyr ynglŷn ag addasrwydd y ffordd i wasanaethu'r datblygiad, er hynny o gofio graddfa fechan y bwriad, ei bellter o'r gyffordd a thebygolrwydd mai ceir a beicwyr fydd yn defnyddio'r fynedfa nid cerbydau tynnu, ni ystyrir bod cyfiawnhad i wrthod y cais ar sail priffyrdd. Mae posibiliad y byddai ail sefydlu'r fynedfa yn darparu man pasio ychwanegol ar hyd y ffordd a all fod o fantais i'w defnyddwyr. Mae'r

Swyddog Priffyrdd yn fodlon â'r bwriad gydag amodau cynllunio perthnasol, ac ystyrir felly yn dderbyniol o ran cydymffurfio a pholisi CH33 CDUG.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.10 Mae cae'r podiau arfaethedig oddeutu 140m i ffwrdd o'r tŷ agosaf nad yw'n eiddo i'r ymgeisydd, gydag un cae yn eu gwahanu a ffiniau coediog rhyngddynt. O ystyried lleoliad diarffordd y safle podiau gryn bellter o'r cymdogion, ni ystyrir y byddai'r cynnig yn amharu ar breifatrwydd nac yn cael effaith arwyddocaol ar fwynderau'r gymdogaeth leol. Ni ystyrir fod datblygiad o raddfa fechan fel hyn yn or-ddatblygiad o'r safle nac yn cynyddu trafnidiaeth yn arwyddocaol. Nodir bod rhai o'r gwrthwynebwyr yn bryderus am y sŵn o ddatblygiad twristiaeth o'r fath, ond credir bod pellter mwy na rhesymol yn eu gwahanu i sicrhau na fydd sŵn yn achosi niwed arwyddocaol. Ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol yng nghyd destyn Polisi B23 CDUG.

**Yr ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus**

5.11 Derbyniwyd pedwar gohebiaeth trydydd parti fel ymateb i'r ymgynghoriad, gan drigolion sy'n byw yn y clwstwr tai cyfagos ac yn defnyddio'r ffordd mynediad ddi-ddosbarth. Eu prif bryder oedd y fynedfa i'r safle, effaith ar fwynderau ac effaith ar y tirlun. Rhoddwyd ystyriaeth deilwng i'r holl sylwadau cynllunio perthnasol a dderbyniwyd ac maent wedi derbyn sylw fel rhan o'r asesiad uchod. Nid oes unrhyw faterion eraill wedi codi sy'n awgrymu y dylid newid yr argymhelliad.

**6. Casgliadau:**

6.1 O bwyso a mesur y bwriad yn erbyn y polisïau perthnasol, ystyrir bod egwyddor o sefydlu safle glampio 5 pod, codi adeilad cyfleusterau a gwaith cysylltiedig yn dderbyniol yn y lleoliad anymwthiol hwn. Credir bod dyluniad a gorffeniad y podiau a'r adeilad yn sensitif i'w leoliad, heb gael ardrawiad andwyol ar yr AHNE na gosodiad yr adeilad rhestredig. Tra nodir pryderon y gwrthwynebwyr ynglŷn â'r ffordd, mae'r Swyddog Priffyrdd yn fodlon bod y bwriad o'r raddfa hyn yn dderbyniol o agwedd ffyrdd. Gan fod pellter rhesymol rhwng y podiau a'r cymdogion agosaf, ni fyddai niwed arwyddocaol i fwynderau'r trigolion cyfagos yn sgil y bwriad. Ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio a'r polisïau a drafodwyd uchod ac felly yn dderbyniol i'w ganiatáu gydag amodau cynllunio perthnasol.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatáu gydag amodau:

1. Cychwyn o fewn 5 mlynedd.
2. Unol â chynlluniau a gyflwynwyd.
3. 5 pod yn unig i'w lleoli yn y mannau a ddangosir yn unig oni bai eu bod yn cael eu storio
4. Cyfyngu i dymor gwyliau penodol – 1 Mawrth – 31 Hydref ac yna rhaid eu symud i'r safle storio a gytunir
5. Unedau gwyliau yn unig a chadw cofrestr
6. Rhaid cytuno lleoliad storio cyn dechrau unrhyw ran o'r datblygiad a ganiateir
7. To lliw llwyd ar yr adeilad
8. Gorffeniad yr adeilad i'w gytuno
9. Tirlunio
10. Amodau ffyrdd
11. Defnyddir y Llyn ar gyfer defnydd preswylwyr y podiau/bythynnod gwyliau yn unig a dim yn agored i'r cyhoedd neu ar gyfer unrhyw ddefnydd busnes arall.

Nodyn: Trwydded